**PAPURAU BUSNES**

**Rhan 1 – Adran D**

**Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 07/11/00**

**R yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant**

**W yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Faterion Gwledig:

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gynlluniau sydd ganddo i hybu a chefnogi'r diwydiant ffermio organig yng Nghymru. (WAQ7736)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gynlluniau sydd ganddo i drafod gyda'i gydweithwyr yn San Steffan yr angen am iawndal am y difrod a wnaed gan ddipiau defaid organo-ffosfforws gan wneuthurwyr y dip a chan gyrff y llywodraeth sy'n trwyddedu'r cemegolion. (WAQ7737)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa sylwadau y mae wedi eu derbyn ynghylch gweithio gyda dipiau defaid organo-ffosfforws ac a wnaiff gyhoeddi unrhyw sylwadau y mae wedi'u derbyn. (WAQ7739)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros yr Amgylchedd:

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa drafodaethau y mae wedi'u cael gyda ffermwyr a chludwyr Cymru yn sgil y protestiadau diweddar ynghylch toll ar danwydd. (WAQ7739)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa drafodaethau y mae wedi'u cael gyda'i chydweithwyr yn San Steffan ynghylch torri'r doll ar danwydd. (WAQ7740)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A yw wedi trafod gyda Railtrack a chyda'i chydweithwyr yn San Steffan ynghylch diogelwch y cledrau yn Gwyn y Gaer yn Ne Morgannwg gynt. (WA7741)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa drafodaethau mae hi wedi'u cael

gyda’i chydweithwyr yn San Steffan ynghylch y modd y byddant yn ymdrin ag unrhyw brotestiadau am doll ar danwydd yn y dyfodol. (WAQ7750)

**Dafydd Wigley (Caernarfon);** Pa geisiadau sydd wedi dod i law iddi addasu Drafft Gynllun Datblygiad Cynaliadwy’r Cynulliad i gynnwys ystyriaethau o’r amgylchfyd cymdeithasol; ac a wnaiff hi ddatganiad ar y mater hwn. (WAQ7751) [W]

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa drefniadau sydd wedi eu gwneud i fynd i’r afael â’r argyfwng gwelyau blynyddol mewn ysbytai yng Nghymru. (WAQ7742)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Yn dilyn WAQ7243, pwy fydd yn rhan o’i Thasglu a sut y gellir enwebu aelodau. (WAQ7743)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Faint yn ychwanegol sy’n cael ei wario gan yr NHS yng Nghymru ar danwydd yn awr o’i gymharu â mis Mai 1997. (WAQ7744)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa ganllawiau sydd ar gael i gyrff y sector cyhoeddus o safbwynt darparu cylchwifrau ar gyfer pobl drwm eu clyw. (WAQ7745)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa wybodaeth y gall y Gweinidog ei rhoi ynghylch gwerthu eiddo sy'n cael ei ddefnyddio neu wedi'i ddefnyddio'n ddiweddar fel cartrefi preswyl neu gartrefi nyrsio. (WAQ7749)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Ddiwylliant a Chwaraeon:

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa gynlluniau sydd ar y gweill i ddangos cefnogaeth y Cynulliad i'r cynnig i gynnal cystadleuaeth Cwpan Ryder yng Nghymru yn 2009. (WAQ7746)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Ddatblygu Economaidd:

**Dafydd Wigley (Caernarfon);** A wnaiff ef restru'r stadau diwydiannol yng Ngwynedd, Ynys Môn a Chonwy sydd yn rhannol neu'n gyfan gwbl mewn perchenogaeth gyhoeddus; a nodi ar gyfer pob stad faint o ffatrïoedd parod sydd ar hyn o bryd yn wag ac ar gael i'w gosod, a beth yw maint yr unedau? (WAQ7747) [W]

**Dafydd Wigley (Caernarfon);** Faint o ganolfannau e-fasnach sydd ar agor yng Nghymru ar hyn o bryd, a faint o ganolfannau o'r fath sydd wedi cau i lawr dros y flwyddyn ddiwethaf. (WAQ7748) [W]